# Croeso i HAUL

Haul

http://www.haul-artsinhealth.org.uk/

haul

Celfyddyd mewn Iechyd
Arts in Health



hafan : newyddion : be sydd ymlaen : archif : estynnwch law : bas data : dolenni : facebook

Ers dros 16 o flynyddoedd, mae Haul wedi bod yn gweithio'n dawel ac yn gyson yn creu gweithdai celf, perfformiadau a digwyddiadau i godi calon cleifion, staff ac ymwelwyr mewn lleoliadau gofal iechyd yng Ngheredigion.

Grŵp celfyddydau gwirfoddol yw Haul, ac mae'n cynnwys artistiaid a chynrychiolwyr cyrff celfyddydau a diwylliannol a staff y Gwasanaeth Iechyd. Dros y 4 blynedd diwethaf rydym wedi cael arian gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac oherwydd hynny rydym wedi gallu cyflogi hwylusydd celfyddydau rhan amser am un diwrnod yr wythnos. Mae'r holl gyllid arall yn dod gan gyrff cyllido eraill, gweithgareddau codi arian a rhoddion.

## Ein gweithgareddau

Mae Haul yn cynnal perfformiadau cerddorol rheolaidd mewn lleoliadau gofal iechyd yng Ngheredigion, mewn cydweithrediad â Cerddoriaeth mewn Ysbytai.

Bu gan bobl gysylltiad agos â cherddoriaeth erioed ac mae pobl wedi gwybod am ei heffaith iachusol  ers cyn cof. Mae cerddoriaeth fyw yn cynnig cyfle i unigolyn ddatblygu sgiliau newydd, er gwaethaf ei anabledd.

Defnyddia'n cerddorion profiadol amrywiaeth o ddulliau cerddorol ac amrywiaeth o offerynnau i ddal sylw eu cynulleidfa. Maen't yn annog eu cynulleidfa i gymryd rhan trwy guro dwylo neu ddawnsio ac maen nhw'n rhoi offerynnau iddyn nhw chwarae arnynt. Mae'r gerddoriaeth, y lliw, y sain, a'r symudiadiadau sydd yn cyngherddau'r 'Cerddoriaeth mewn Ysbytai' yn helpu'r cleifion anniddig  i  ymlacio. Mae'r rhai sy'n llonydd, ar y llaw arall, yn cael eu symbylu i wenu neu i fywiogi.

Mae'r perfformiadau yn ddigwyddiadau cymdeithasol a daw doniau cudd i'r amlwg sy'n helpu'r staff i ddeall mwy am y rhai sydd dan eu gofal. Yn ogystal â cherddorion, bydd cartwnyddion, beirdd ac actorion yn cymryd rhan yn y perfformiadau.

Mae'r rhaglenni ar gyfer plant yn cael eu cynllunio'n arbennig i'w helpu i feddwl yn fwy cadarnhaol am eu dyfodol. Mae gan rai o'n cerddorion raglenni arbennig sy'n cynnwys caneuon poblogaidd o sioeau cerdd, y teledu, ffilmiau a cherddoriaeth pop.

Yn ogystal â gweithgareddau cerddorol rydyn ni'n gosod arddangosfeydd yn ffreutur Ysbyty Bronglais a yn creu gweithiau celf parhaol megis mosaigau, murluniau a phaneli tecstiliau. Yn aml rydym ni'n creu projectau mewn ymateb i gais penodol gan staff yr ysbyty.